SKABT30

Gwella nodweddion yr wyneb gan ddefnyddio technegau microbigmentiad

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â defnyddio microbigmentiad, math o datŵ cosmetig, i greu effeithiau i wella, cywiro a diffinio nodweddion yr wyneb. Mae'n cynnwys y sgiliau sy'n gysylltiedig â darparu ymgynghoriad trylwyr gyda'r cleient i lunio a chyflwyno cwrs o driniaeth penodol wedi'i deilwra i gyd-fynd ag anghenion cleientiaid unigol. Byddwch yn paratoi ar gyfer ac yn cyflawni ystod o effeithiau microbigmentiad, yn ogystal â darparu cyngor ôl-ofal.

Er mwyn cynnal y safon hon bydd angen i chi gynnal iechyd, diogelwch a hylendid effeithiol trwy gydol eich gwaith. Bydd angen i chi hefyd gynnal eich ymddangosiad personol a dangos sgiliau cyfathrebu ac ymgynghori effeithiol.

Prif ganlyniadau'r safon hon yw:

1. cynnal dulliau diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio technegau microbigmentiad

2. ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau

3. cyflawni triniaethau microbigmentiad

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cynnal dulliau diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio technegau microbigmentiad

1. cynnal eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch trwy gydol y driniaeth

2. paratoi'ch cleient a'ch hun i fodloni gofynion cyfreithiol a sefydliadol

3. sicrhau urddas a phreifatrwydd eich cleient ar bob amser

4. gosod eich cleient mewn safle i fodloni anghenion y driniaeth heb achosi iddynt deimlo'n anghysurus

5. sicrhau bod eich ystum eich hun a'ch dulliau gwaith yn isafu ar flinder a risg o anaf i chi'ch hun ac eraill

6. sicrhau bod amodau amgylcheddol yn addas i'r cleient a'r driniaeth

7. defnyddio dulliau gwaith sy'n isafu ar risg o groes-heintio

8. sicrhau defnydd ar gyfarpar a deunydd glân

9. hyrwyddo arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy

10. dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a chyflenwyr neu gynhyrchwyr ar ddefnydd diogel ar gyfarpar, deunydd a chynnyrch

11. cael gwared ar ddeunydd gwastraff i fodloni gofynion cyfreithiol

12. cynnal y driniaeth o fewn amser sy'n ymarferol yn fasnachol

Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau

13. defnyddio **technegau ymgynghori** i bennu cynllun triniaeth y cleient

14. cyflawni **profion** i sefydlu ymateb y cleient ac addasrwydd ar gyfer triniaeth

15. gwrthod triniaeth i blant dan 18 oed, oni bai bod rhesymau meddygol dros wneud

16. sicrhau eich bod yn gweithio dan gyfarwyddyd gweithiwr meddygol a bod rhiant neu warchodwr yn bresennol, cyn trin plant am resymau meddygol

17. adnabod unrhyw wrtharwyddion a chymryd camau angenrheidiol

18. nodi a chytuno ar yr **ardaloedd i'w trin**, disgwyliadau'r cleient, **amcanion y driniaeth** a chost

19. sicrhau caniatâd ysgrifenedig, wedi'i lofnodi gan y cleient cyn cynnal y driniaeth

20. dewis a pharatoi cyfarpar i fodloni gofynion cyfreithiol a diogelwch ac **amcanion y driniaeth**

21. glanhau'r **ardaloedd i'w trin** a nodi **nodweddion croen** y cleient a **phigmentau** lliw posibl sy'n bodloni anghenion y cleient

22. cymryd tystiolaeth ffotograffig o'r **ardaloedd i'w trin**, yn ystod gwahanol gamau triniaeth

Cyflawni triniaethau microbigmentiad

23. taenu cynnyrch neu ddyfais i sicrhau cysur y cleient

24. esbonio'r teimlad corfforol a achosir gan y driniaeth i'r cleient

25. marcio'r **ardaloedd i'w trin** a chytuno ar y cynllun gyda'r cleient

26. dewis ffurfweddiad **nodwydd** i gyflawni'r effaith dymunol

27. llwytho'r **nodwydd** mewn ffordd sy'n osgoi difrodi a halogi'r **nodwydd**

28. defnyddio **pigmentau** lliw yn unol ag **amcanion y driniaeth**

29. defnyddio **technegau mewnblannu** mewn ffordd fydd yn sicrhau'r **effeithiau** a ddymunir

30. trin y croen, i fodloni anghenion y **technegau mewnblannu**

31. defnyddio'r teclyn llaw ar yr ongl, cyflymder a gwasgedd cywir i fodloni'r **amcanion y driniaeth** ofynnol

32. gwirio lles y cleient a monitro lefel adwaith y croen trwy gydol y driniaeth

33. sicrhau bod yr **effeithiau** terfynol yn bodloni **amcanion y driniaeth** a boddhad y cleient

34. rhoi **cyngor ac argymhellion** i'ch cleient ar y driniaeth a ddarparwyd

35. sicrhau bod cofnodion y cleient yn cael eu cwblhau a'u llofnodi gennych chi a'r cleient

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Cynnal dulliau diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio technegau microbigmentiad

*
***1. eich cyfrifoldebau dros ***iechyd a diogelwch** fel y diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n berthnasol i'ch swydd

2. y cyfrifoldebau dan **ddeddfwriaeth ac is-ddeddfau** ar gyfer triniaethau microbigmentiad

3. pwysigrwydd gwirio canllawiau yswiriant cyfredol ar gyfer darparu triniaethau microbigmentiad

4. eich gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer diogelu a pharatoi cleient

5. eich gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer eich hylendid, amddiffyniad ac ymddangosiad personol

6. y rhesymau dros sicrhau urddas a phreifatrwydd cleient

7. sut y gall technegau gosod ac arferion gwaith diogel atal **anaf yn gysylltiedig â'r gwaith**

8. amodau amgylcheddol angenrheidiol ar gyfer triniaethau, megis gwresogi ac awyru a pham bod y rhain yn bwysig

9. dulliau glanhau, diheintio a sterileiddio

10. pam ei bod yn bwysig osgoi traws heintio uniongyrchol ac anuniongyrchol trwy weithio'n ddiogel ac yn lanwaith

11. y rhesymau dros ddefnyddio offer amddiffynnol personol a nwyddau traul atal un defnydd

12. pam yr argymhellir eich bod yn cael imiwneiddiad rhag hepatitis B wrth gyflawni microbigmentiad

13. achosion a pheryglon amlygiad damweiniol i wastraff clinigol

14. y gwahanol fathau o ddulliau gwaith sy'n hyrwyddo **arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy**

15. cyfarwyddiadau cyflenwyr a chynhyrchwyr ar gyfer defnydd diogel ar gyfarpar, deunydd a chynnyrch y mae'n rhaid i chi eu dilyn, yn amodol i ofynion Awdurdodau Lleol

16. y gofynion cyfreithiol ar gyfer cael gwared ar wastraff

17. y rhesymau dros gwblhau triniaethau o fewn amser sy'n ymarferol yn fasnachol

Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau

18. pwysigrwydd cyfathrebu gyda chleientiaid mewn modd proffesiynol

19. sut i gwblhau **cofnodion ymgynghoriad**, gan ystyried **anghenion amrywiol** y cleient

20. pwysigrwydd profion cyn triniaeth a sut i'w cyflawni i bennu addasrwydd cleient ar gyfer triniaeth

21. pam ei bod yn bwysig, cyn trin plant am resymau meddygol, sicrhau eich bod yn gweithio dan gyfarwyddyd gweithiwr meddygol, bod rhiant neu warchodwr yn bresennol ac wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig

22. y rhesymau dros ystyried cyflwr corfforol a seicolegol y cleient, hanes meddygol a thriniaeth microbigmentiad blaenorol

23. sut i adnabod **gwrtharwyddion** a fyddai'n atal neu'n cyfyngu ar y driniaeth a pham

24. y **gwrtharwyddion sy'n gofyn am atgyfeiriad meddygol** a pham

25. y camau angenrheidiol i'w cymryd mewn perthynas â gwrtharwyddion penodol wrth gyfeirio cleientiaid

26. pwysigrwydd a'r rhesymau dros beidio ag enwi gwrtharwyddion penodol wrth atgyfeirio cleientiaid ar ymarferwyr meddygol

27. y rhesymau dros gytuno ar yr ardaloedd i'w trin, disgwyliadau'r cleient, amcanion y driniaeth a chostau gyda'r cleient

28. arwyddocâd cyfreithiol dros sicrhau caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi gan gleient cyn triniaeth

29. y gofynion deddfwriaethol ar gyfer storio a diogelu data cleient

30. paratoi'r ardal driniaeth yn unol â chynllun y driniaeth a gofynion cyfreithiol a iechyd a diogelwch

31. y rhesymau dros lanhau a pharatoi'r ardal i'w thrin yn drylwyr

32. sut i baru pigmentau eich lliw i wahanol nodweddion croen

33. arwyddocâd cyfreithiol cynhyrchu tystiolaeth ffotograffig glir o ansawdd ar wahanol gamau o'r driniaeth

Cyflawni triniaethau microbigmentiad

34. mathau, defnyddiau a chyfyngiadau anaesthetig a dyfeisiau argroenol

35. sut i ddisgrifio teimlad corfforol y driniaeth i'r cleient

36. sut mae'r trothwy poen a sensitifrwydd yn amrywio o un cleient i'r llall ac o apwyntiad i apwyntiad

37. pam ei bod yn bwysig cynllunio siâp a lleoliad ardaloedd i'w trin

38. y gwahanol fathau o ffurfweddiad nodwyddau a'u heffeithiau

39. achosion difrod i nodwyddau a pham na ddylid defnyddio nodwyddau wedi eu difrodi

40. sut i ddethol, cymysgu a phrofi pigmentau lliw i weddu i wahanol amcanion triniaeth a nodweddion croen

41. mathau a phriodweddau pigmentau ac asiantau cludo sydd ar gael ar gyfer y driniaeth

42. defnyddiau a chyfyngiadau pigmentau wedi eu cymysgu a'u gwanedu

43. pwysigrwydd prynu offer, nodwyddau a phigmentau wedi eu rheoleiddio gan yr UE a'r Deyrnas Unedig

44. egwyddorion theori lliw parthed triniaethau microbigmentiad

45. sut mae pigmentau lliw yn newid trwy gydol proses y driniaeth a gwellhad

46. gweithredu theori lliw i newid canlyniadau lliw annymunol wedi'r broses wella

47. dethol, defnyddio a gweithredu gwahanol driniaethau microbigmentiad

48. y gwahanol dechnegau mewnblannu i greu'r effeithiau a dymunir

49. pam eich bod yn trin y croen i sicrhau mewnblannu pigment yn effeithiol

50. yr ongl, cyflymder a gwasgedd cywir wrth ddefnyddio'r teclyn llaw i gyflawni'r dyfnder lliw a dosbarthiad pigment a chwenychir

51. pam ei bod yn bwysig gwirio lles y cleient a monitro adwaith y croen trwy gydol y driniaeth

52. yr **adweithiau** i microbigmentiad, sut i ddelio â hwy a'r cyngor i roi i gleientiaid

53. pwysigrwydd sicrhau bod yr effeithiau terfynol yn bodloni cynllun y driniaeth a boddhad y cleient

54. gwahanol dechnegau dileu pigment a'u cyfyngiadau

55. effaith triniaeth laser ar ditaniwm deuocsid

56. **anatomi a ffisioleg** yn ymwneud â thechnegau microbigmentiad

57. y **cyngor a'r argymhellion** ar gynnyrch a thriniaethau

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Technegau ymgynghori

1. holi

2. gwrando

3. edrych

4. teimlo

5. ysgrifenedig

**

Profion**

1. pigment

2. anaesthetig argroenol

Ardaloedd i'w trin

1. gwefusau

2. aeliau gyda gwallt presennol

3. aeliau heb wallt presennol

4. amrant uchaf

5. amrant isaf

6. smotyn harddwch

Amcanion y driniaeth

1. diffinio nodweddion yr wyneb

2. creu nodweddion

3. cywiro nodweddion

4. gwella a chydbwyso nodweddion

5. cyflwyno lliw i'r croen

Nodweddion croen

1. math

2. tôn

3. cyflwr

4. anhwylderau

Pigmentau

1. organig

2. anorganig

3. gwanedydd pigment

Nodwydd

1. fflat

2. magnwm

3. crwn

4. pwynt sengl

5. llethrog

6. micro

7. cysgodwyr a leinwyr

Technegau gweithredu

1. pwyntiliaeth
2. pendil
3. cysgodi
4. wyffurf
5. croeslinellu
6. ysgubiad
7. strôc

Effeithiau

1. aeliau strôc gwallt
2. aeliau wedi cysgodi
3. leiniwr llygaid
4. gwella amrantau
5. leiniwr gwefusau
6. cochi gwefusau
7. cysgodi gwefusau

Cyngor ac argymhellion

1. cynnyrch ôl-ofal addas a'u defnydd
2. osgoi gweithgareddau a allai achosi adweithiau
3. y cyfnodau amser a argymhellir rhwng triniaethau
4. cynnyrch a thriniaethau yn awr ac yn y dyfodol

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Iechyd a diogelwch

1. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

2. Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR)

3. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)

4. Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)

5. Rheoliadau Gweithredoedd Codi a Chario

6. Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)

7. Rheoliadau Trydan yn y Gweithle

8. Deddf Diogelu'r Amgylchedd

9. Y Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle

10. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Gyflogeion)

Deddfwriaeth ac is-ddeddfau

1. cyfryngau merwino'r croen

2. glanhau a diheintio

3. gwaredu ar wastraff (y Ddeddf Meddyginiaethau a Meddyginiaethau a Darpariaethau Amrywiol)

4. rheoliadau

5. Deddf Tatŵs ar Blant

6. pigmentau

7. nodwyddau

8. offer

Anafiadau yn gysylltiedig â gwaith

1. atal anaf straen ailadroddus (RSI)

2. anaf i'r cefn

3. syndrom twnnel arddyrnol

4. straen i'r gwddf

5. straen i'r llygad

Arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy

1. gostwng gwastraff a rheoli gwastraff (ailgylchu, ailddefnyddio, gwaredu diogel)

2. gostwng defnydd ar ynni (cyfarpar sy'n arbed ynni, goleuadau ynni isel, defnyddio paneli solar)

3. gostwng defnydd ar ddŵr ac adnoddau eraill

4. atal llygredd

5. defnyddio eitemau untro

6. defnyddio dodrefn wedi'u hailgylchu, ecogyfeillgar

7. defnyddio paent â chemegau isel

8. defnyddio pecynnau cynnyrch ecogyfeillgar

9. dewis cynnyrch domestig cyfrifol (te a choffi Masnach Deg)

10. annog siwrneion i'r gwaith sy'n gostwng carbon

Cofnodion ymgynghori

1. hanes meddygol

2. cyflwr emosiynol

3. tôn lliw naturiol

4. sensitifrwydd croen

5. llofnodion

6. disgwyliadau'r cleient

7. cofnodion triniaeth - ardal a chafodd ei thrin, dull triniaeth, pigmentau lliw a ddefnyddiwyd, amser a hyd, math o nodwydd a defnydd, canlyniad y driniaeth

Anghenion amrywiol

1. diwylliannol

2. crefyddol

3. oed

4. anabledd

5. rhyw

Gwrtharwyddion sy'n cyfyngu

1. epilepsi

2. chwistrelladwyon

3. cyflyrau ac anhwylderau croen chwyddedig a heintiedig

4. afiechydon heintus

5. mannau geni yn ardal y driniaeth

6. meddyginiaethau sy'n achosi teneuo neu lid i'r croen

7. diagnosis o scleroderma

8. angioma pigmentaidd

9. pilio cemegol canolig/dwfn

10. dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau hamdden

11. herpes simplecs

12. beichiogrwydd

Gwrtharwyddion sy'n atal

1. hyper-bigmentiad ar y gwefusau

2. llawdriniaeth ddiweddar ar yr wyneb (o fewn 6 mis)

3. alergeddau

4. haemoffilia

5. creithiau hypertroffig

6. dysmorffia corfforol

Gwrtharwyddion sy'n gofyn am atgyfeiriad meddygol

1. clefyd siwgr a reolir gan inswlin

2. meddyginiaeth sy'n teneuo'r gwaed

3. cemotherapi

4. pwysedd gwaed uchel

5. anhwylderau'r galon

6. HIV

7. hepatitis

8. dan 18 oed

Adweithiau

1. cochni gormodol

2. crafiadau cornaidd

3. mudiad pigment

4. pothellu

5. anghysur gormodol

6. oedema

7. adweithiau yn arwain at gleisio

8. llosg dynad

9. pendro

10. pigo

11. pwys

12. anaffylacsis

13. poen

Anatomi a ffisioleg

1. strwythur a swyddogaethau'r croen

2. swyddogaeth sylfaenol gwaed ac egwyddorion cylchrediad

3. strwythur a swyddogaeth sylfaenol y rhydwelïau, gwythiennau a chapliarïau yn yr wyneb a'r gwddf

4. egwyddorion a swyddogaeth y system lymffatig yn yr wyneb a'r gwddf

5. diben a swyddogaeth ffagosytau a sut maent yn effeithio ar y pigment

6. proses wella'r croen yn dilyn triniaethau microbigmentiad

7. diben a swyddogaeth melanin a sut mae'n effeithio ar y pigment

8. strwythur y llygad a'r gwefusau a sut y gall hyn effeithio ar y driniaeth

Cyngor ac argymhellion

1. trefnu apwyntiad yn y dyfodol, 4-12 wedi'r driniaeth, i asesu canlyniadau'r driniaeth

2. osgoi gweithgareddau a chynnyrch penodol yn ystod proses gwella'r croen

3. defnydd o gynnyrch gofal croen yn ystod y broses wella

4. hysbysu'r cleient i osgoi rhoi gwaed am gyfnod o bedwar mis wedi'r driniaeth

5. osgoi triniaethau neu weithdrefnau penodol wedi'r driniaeth megis sgan MRI, chwistrelliadau a thriniaeth laser

6. asesiad yn dilyn triniaeth trwy adborth y cleient, fel holiadur, galwad ffôn, ymweliad dilynol nesaf

Gwerthoedd

Mae'r gwerthoedd allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. parodrwydd i ddysgu
2. agwedd hyblyg i weithio
3. gweithiwr tîm
4. agwedd bositif
5. moeseg bersonol a phroffesiynol

Ymddygiadau

Mae'r ymddygiad a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba. Mae'r ymddygiadau hyn yn sicrhau bod cleientiaid yn cael argraff gadarnhaol o'r sefydliad a'r unigolyn

1. bodloni safonau ymddygiad y sefydliad
2. cyfarch y cleient yn barchus ac mewn modd cyfeillgar
3. cyfathrebu gyda'r cleient mewn ffordd sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu
4. trin y cleient yn gwrtais ac yn wasanaethgar bob amser
5. addasu'r ymddygiad i ymateb yn effeithiol i wahanol ymddygiad gan y cleient
6. gwirio gyda'r cleient eich bod chi wedi deall eu disgwyliadau yn llawn
7. ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i gwestiynau a sylwadau'r cleient
8. adnabod gwybodaeth y gallai'r cleient ei chael yn gymhleth a gwirio a ydynt wedi deall yn llawn
9. esbonio'n glir wrth y cleient os na ellir bodloni eu hanghenion neu'u disgwyliadau am unrhyw reswm
10. cynnal dulliau gwaith effeithiol, glân a diogel
11. cadw at gyfarwyddiadau'r gweithle, y cyflenwyr a'r cynhyrchwyr wrth ddefnyddio cyfarpar, deunyddiau a chynnyrch yn ddiogel
12. bodloni safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant.

Sgiliau

Mae'r sgiliau allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. y gallu i hunan-reoli
2. cyfathrebu llafar a di-eiriau gwych
3. defnyddio'r ffyrdd mwyaf priodol o gyfathrebu gyda chleient
4. ymateb yn brydlon i gleient sy'n gofyn am gymorth
5. canfod gwybodaeth yn gyflym a fydd o gymorth i'r cleient

6. rhoi gwybodaeth y mae ei hangen ar gleient am wasanaethau a chynnyrch a gynigir gan y sefydliad

Geirfa

Dyfais

Dyfais electronig sy'n ceisio oeri'r croen a lleihau teimlad yn y croen i wneud microbigmentiad yn fwy cyfforddus i'r cleient.

Gweithiwr meddygol

Gallai hyn gynnwys llawfeddygon plastig ac ailadeiladol, oncolegwyr, seiciatryddion a meddygon teulu

Wyffurf

Techneg mewnblannu a ddefnyddir mewn microbigmentiad, ble dodir y pigment mewn symudiad cylchol gorgyffyrddol.

Pwyntiliaeth

Techneg mewnblannu a ddefnyddir mewn microbigmentiad ble mae arwyneb yn cael ei orchuddio gyda dotiau man o bigment lliw i greu effaith gysgodol, a ddefnyddir ar ardaloedd fel llinell waelod yr amrantau a'r areola.

Anaesthetig argroenol (asiant merwino)

Eli a roddir ar arwyneb y croen fel modd o leihau poen. Gellir ei roi cyn ac yn ystod triniaeth.

SKABT30

Gwella nodweddion yr wyneb gan ddefnyddio technegau microbigmentiad

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	01 Ion 2015
Dyddiad Adolygu Dangosol	29 Ebr 2020
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKAB30
Galwedigaethau perthnasol	Therapydd Harddwch
Cyfres/Set	Therapi Sba, Arferion Uwch Therapi Harddwch
Geiriau Allweddol	microbigmentiad; colur lled barhaol;